






Rhianta Corfforaethol


Canllawiau i Aelodau Etholedig yn Nhorfaen






Cynnwys

Llythyr Agored	5
Trosolwg	6
Gwasanaethau Plant a'r Teulu a'r Timau	7
Gwasanaethau a Gomisiynir	11
Sut mae Gwasanaethau Plant a'r Teulu yn dod ynghlwm â Phlant, Pobl Ifanc a'u Teuluoedd?	12
Beth sy'n Digwydd pan fydd Gwasanaethau Plant a'r Teulu'n Derbyn Atgyfeiriad?	13
Beth sy'n Digwydd os yw Plentyn neu Berson Ifanc yn 'Derbyn Gofal' gan y Cyngor?	14
Eich Rôl fel Aelod Etholedig a Rhiant Corfforaethol	15
Gofalu am Blant a Phobl Ifanc yn Nhorfaen	17
Diogelu Plant sy'n Derbyn Gofal	19
Anghenon Addysgol ac Iechyd	20
Anghenion Iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal	22
Hawliau Plant a Phobl Ifanc	23
Fframwaith Cyfreithiol a Pholisi sy'n Llywodraethu Gwasanaethau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc	24





Llythyr Agored

oddi wrth Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr

Rhagfyr 2013

Annwyl Aelod Etholedig

CROESO I'R CANLLAWIAU I RIANTA CORFFORAETHOL!

Rydym yn falch o gyflwyno'r Canllawiau i Rianta Corfforaethol, a luniwyd i'ch helpu chi i ddeall cyfrifoldebau'r awdurdod dros blant a phobl ifanc sy'n Derbyn Gofal.

Gellid dadlau mai rôl y Rhiant Corfforaethol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yw'r rôl bwysicaf sydd gan unrhyw Gyngor. Mae'n ddyletswydd gyfreithiol a moesol arnom i ddarparu cymorth, gofal ac amddiffyniad ar y lefel y byddai unrhyw riant da yn eu darparu ar gyfer eu plant. Mae hyn yn cynnwys hybu eu hiechyd, eu haddysg a'u hanghenion cymdeithasol ac emosiynol.


Mae'r term 'Rhiant Corfforaethol' yn cydnabod, er mwyn diwallu anghenion amrywiol y bobl ifanc hyn, fod angen cydweithredu rhwng meysydd gwasanaethau'r Cyngor a mudiadau eraill fel iechyd, addysg, yr heddlu ac asiantaethau partner.

Lluniwyd y canllawiau hyn i'ch helpu chi i chwarae rhan weithgar wrth sicrhau bod y plant a phobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed, yn enwedig y rheiny sy'n Derbyn Gofal, yn cael y dechrau gorau posib mewn bywyd, i'w galluogi i fyw bywydau llawnach a mwy llwyddiannus fel oedolion.

Gobeithiwn y bydd y **Canllawiau i Rianta Corfforaethol** yn rhoi golwg i chi ar eich cyfrifoldeb fel Rhiant Corfforaethol, wrth wella lles a chyfleoedd Plant sy'n Derbyn Gofal mewn bywyd.

Bob Wellington
Arweinydd y Cyngor

Alison Ward
Prif Weithredwr



Trosolwg

Datblygwyd y canllawiau hyn gan Wasanaethau Plant a'r Teulu Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen. Y bwriad yw rhoi trosolwg i chi, fel Aelod Etholedig, o'ch cyfrifoldebau Rhianta Corfforaethol dros blant a phobl ifanc sy'n Derbyn Gofal gan y Cyngor.

Efallai mai rôl y Rhiant Corfforaethol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yw'r rôl bwysicaf sydd gennych. Mae'n ddyletswydd gyfreithiol a moesol ar Aelodau Etholedig, a'r Cyngor yn ei gyfanrwydd, i ddarparu cymorth, gofal ac amddiffyniad ar y lefel y byddai unrhyw riant da yn eu darparu ar gyfer eu plant. Mae hyn yn cynnwys hybu eu hiechyd, eu haddysg a'u hanghenion cymdeithasol ac emosiynol. Gorwedd y cyfrifoldeb hwn gydag Aelodau Etholedig a'r Cyngor, hyd yn oed pan na fydd pobl ifanc yn Derbyn Gofal mwyach, er enghraifft pan fyddan nhw wedi gadael gofal ac mewn addysg uwch, hyd nes cyrraedd 24 oed.

Mae'r term "Rhianta Corfforaethol" yn cydnabod, er mwyn diwallu holl anghenion datblygu plant a phobl ifanc, fod angen cydweithrediad rhwng adrannau'r Cyngor a gydag asiantaethau partner fel partneriaid iechyd a phartneriaid yn y sector gwirfoddol. Fel Rhiant Corfforaethol, pan fyddwch chi'n ystyried ansawdd y gofal a'r cyfleoedd y mae Plant sy'n Derbyn Gofal yn eu cael, rhaid i chi ofyn i chi'ch hun bob tro, "a fyddai hyn yn ddigon da i 'mhlentyn i?"


Yn y *Canllawiau i Rhianta Corfforaethol* ceir esboniad o'r ffordd y mae Isadran Gwasanaethau Plant a'r Teulu wedi'i strwythuro a beth mae'r timau unigol yn ei wneud. Mae'n esbonio pam mae'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol a Thai yn dod yn ymglymedig â phlant a theuluoedd, a sut mae'n gwneud hynny, ac mae hefyd yn esbonio beth sy'n digwydd os yw plentyn neu rywun ifanc yn dod i Dderbyn Gofal gan y Cyngor. Ceir amlinelliad o wasanaethau egwyl fer sydd ar gael i blant a phobl ifanc anabl a cheir esboniad manwl o'ch rôl chi fel Aelod Etholedig a Rhiant Corfforaethol.

Mae yna amrywiaeth o leoliadau ar gael i gwrdd ag anghenion unigol plant a phobl ifanc sydd angen Derbyn Gofal a cheir manylion y rhain, yn ogystal â threfniadau i sicrhau eu diogelwch. Mae yna adran ar Fabwysiadu hefyd.

Yn y canllawiau hyn hefyd, ceir disgrifiad o ddeddfwriaeth a mentrau pwysig gan y Llywodraeth sy'n effeithio ar blant mewn angen a phlant a phobl ifanc sy'n Derbyn Gofal, gan gynnwys y gwasanaethau eiriolaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc. Mae'r weithdrefn gwyno'n cael ei hesbonio a cheir esboniad cryno o rôl Comisiynydd Plant Cymru.

Yn olaf, mae'r canllawiau hyn yn darparu'r fframwaith cyfreithiol a pholisi sy'n llywodraethu gwasanaethau i blant a phobl ifanc.





Gwasanaethau Plant a'r Teulu a'r Timau

Prif nod Gwasanaethau Plant a'r Teulu yw sicrhau bod plant yn cael eu diogelu trwy brosesau clir a thrwy ymgysylltu ar safon uchel gyda phlant a phobl ifanc mewn angen, sy'n agored i niwed, a'u teuluoedd.

Gwneir hyn trwy gynnig amrywiaeth o wasanaethau sydd, ble'n bosib, yn cefnogi plentyn neu rywun ifanc i barhau i fyw gyda'i deulu ei hun ac yn ei gymuned leol. Ble nad yw hyn yn bosib ac mae angen i blant a phobl ifanc dderbyn gofal i ffwrdd oddi wrth eu teulu, mae'r pwyslais ar eu gosod mewn gofal maeth a chadw cysylltiadau gyda'u cymunedau lleol.

Fframwaith ar gyfer Asesu

Mae'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant Mewn Angen a'u Teuluoedd yn cynnig ffordd o edrych ar yr hyn sy'n digwydd i blant a'u teuluoedd, ei ddeall a'i gofnodi, gan sicrhau bod asiantaethau eraill hefyd ynghlwm, er enghraifft iechyd, addysg ac asiantaethau gwirfoddol. Mae'r Fframwaith ar gyfer Asesu yn darparu amserlenni statudol er mwyn gwneud gwaith gyda theuluoedd ac mae'r rhain yn rhan o gyfres o ddangosyddion perfformiad ar gyfer yr Isadran a'r Cyngor. Ar hyn o bryd, mae yna 46 dangosydd perfformiad allweddol yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sy'n gyfrifoldeb ar Wasanaethau Plant a'r Teulu, o fewn Gofal Cymdeithasol a Thai.

Nod Gwasanaethau Plant a'r Teulu yw gweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon, ac yn unol â'r Fframwaith ar gyfer Asesu a deddfwriaeth, canllawiau a pholisïau eraill a osodir gan y llywodraeth yn ganolog, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn, mae Gwasanaethau Plant a'r Teulu wedi ei strwythuro yn gyfres o dimau.

Gofal Cwsmeriaid


Y Ganolfan Gofal Cwsmeriaid Gorfforaethol yw'r man cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw ymholiadau ac atgyfeiriadau gan y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol.

Caiff staff Gofal Cwsmeriaid eu hyfforddi a chânt gymorth proffesiynol i ddarparu cyngor perthnasol, i ddangos y ffordd at wasanaethau eraill a, ble'n berthnasol, i anfon atgyfeiriadau ymlaen at y tîm mwyaf perthnasol.

Timau sy'n Gweithredu yn y Fwrdeistref

- Plant a'r Teulu De 1
- Plant a'r Teulu De 2
- Plant a'r Teulu Gogledd 1
- Plant a'r Teulu Gogledd 2

Ymatebir i atgyfeiriadau ar gyfer y De a'r Gogledd trwy ganolbwynt craidd o staff amddiffyn plant profiadol. Mae'r staff hyn yn gweithio yn Nhŷ'r Stadiwm ar gyfer y De, ac yn gwasanaethu holl Wardiau'r De (Ponhir - Cwmbrân) ac yn y Ganolfan Ddinesig ar gyfer y Gogledd, gan wasanaethu holl Wardiau'r Gogledd o New Inn i Griffithstown, Pont-y-pŵl a Blaenafon. Mae'r Uwch Weithiwr Cymdeithasol â Gofal / Rheolwr Tîm Cynorthwyol yn sgrinio pob atgyfeiriad i weld pa wasanaethau cymorth neu ymyrraeth dybryd sydd eu



hangen, os oes eu hangen. Defnyddir meini prawf cymhwysedd clir er mwyn blaenoriaethu pob atgyfeiriad. Ar gyfer yr atgyfeiriadau hynny sydd angen gwasanaethau neu gymorth, caiff y plentyn/person ifanc a'i deulu eu hasesu gan ddefnyddio'r Fframwaith ar gyfer Asesu.

Ffocws yr Isadran yw cadw teuluoedd gyda'i gilydd, ond mae hefyd yn cydnabod y ddyletswydd gyfreithiol sydd ar y Cyngor i ddiogelu plant a'u hamddiffyn. Weithiau, efallai na fydd yn bosib i blentyn barhau i fyw yn ei gartref ei hun, ac mae angen i blant a phobl ifanc ddod i ofal yr awdurdod lleol. Pan fydd hyn yn digwydd, dywedwn fod y plentyn yn *Derbyn Gofal*.

Mae'n gyfrifoldeb ar y timau i reoli pob achos ble bydd angen i'r Cyngor fod ynghlwm ar lefel sylweddol, a ble bydd angen i'r Cyngor barhau i fod ynghlwm. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc sy'n cael eu hasesu fel rhai sydd *mewn angen* cefnogaeth barhaus gan weithwyr cymdeithasol. Mae'n cynnwys y plant a'r bobl ifanc hynny sydd angen eu hamddiffyn trwy Gynllun Amddiffyn Plant amlasiantaeth, y rheiny sydd efallai angen *Derbyn Gofal* gan y Cyngor a'r rheiny sydd angen gofal parhaus i fwrdd oddi wrth eu teuluoedd, trwy Fabwysiadu. Oherwydd hyn, mae'r timau'n aml yn gweithio gyda'r llysoedd i sicrhau y ceir y cynlluniau gorau ar gyfer plant a phobl ifanc.

Y Tîm 16+

Mae'r Tîm 16+, sy'n gweithio o'r Stiwdio yn Hen Gwmbrân, yn rhan annatod o Wasanaethau Cefnogi Pobl Ifanc Torfaen (TYPSS) ac mae'n gweithio gyda Phlant sy'n *Derbyn Gofal* o'u pen-blwydd yn 16, gan eu cefnogi o fewn eu lleoliadau a'u helpu i baratoi ar gyfer y cyfnod pontio at fod yn oedolion ifanc. Mae'r tîm yn cefnogi pobl ifanc trwy'r broses o adael gofal yr awdurdod lleol ac, yn y pendraw, i fyw'n annibynnol. Mae pob person ifanc yn cael Cynllun Llwybr, sef cynllun gweithredu clir sy'n canolbwyntio ar y dyfodol. Mae'r Cynllun hwn yn blaenoriaethu cyfleoedd addysg a chyflogaeth ac yn ystyried cymorth ariannol a help gyda thai. Mae'r tîm yn parhau i gefnogi Plant a Phobl Ifanc sy'n *Derbyn Gofal* hyd nes eu pen-blwydd yn 21 neu'n 24 oed os ydynt mewn addysg uwch lawn-amser. Mae TYPSS yn rhoi cefnogaeth, cyngor ac arweiniad i bobl ifanc mewn angen, er enghraifft pobl ifanc ddiartref sy'n 16 ac yn 17 oed. Nod y tîm yw grymuso pobl ifanc, a'u galluogi i wireddu'u potensial. Mae hefyd am sicrhau, wrth iddynt ddod yn oedolion, nad ydynt wedi eu hynysu a'u bod yn gallu cyfrannu'n gymdeithasol ac yn economaidd fel dinasyddion.


Tîm Lleoli Teuluoedd

Mae'r Tîm Lleoli Teuluoedd, sy'n gweithio o'r Ganolfan Ddinesig, yn darparu'r gwasanaeth maethu sydd wedi'i reoleiddio, ac yn ei reoli, ar gyfer y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau gofal maeth i blant a phobl ifanc sy'n *Derbyn Gofal* gan gynnwys egwyl fer a gofal seibiant a, ble mae angen, mae'n nodi lleoliadau posib mewn gosodiad preswyl. Y tîm yma sy'n gyfrifol am recriwtio gofalwyr maeth sy'n gallu diwallu anghenion amrywiol plant sydd angen gofal maeth byr dymor, lleoliadau parhaol neu lleoliadau llety â chymorth. Mae hefyd yn eu hasesu ac yn darparu cefnogaeth barhaus ar eu cyfer. Caiff y tîm a'r gwasanaeth maethu eu harolygu'n flynyddol yn erbyn Safonau Gofynnol Cenedlaethol gan AGGCC.

Mabwysiadu yn Nhorfaen – Gwasanaeth Mabwysiadu De Ddwyrain Cymru

Sefydlwyd Gwasanaeth Mabwysiadu De Ddwyrain Cymru yn 2011 trwy bartneriaeth gyda Chyngor Sir Fynwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Yn 2014, ymunodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Dinas Casnewydd â'r Gwasanaeth i sefydlu Cydweithfa Ranbarthol fel rhan o gynllun Llywodraeth Cymru i sefydlu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i Gymru. Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent sy'n lletya'r Gydweithfa Ranbarthol o hyd. Mae'r tîm yn gyfrifol am recriwtio pobl sy'n ystyried mabwysiadu a lleoliadau mabwysiadu, yn ogystal â'u hasesu a'u cefnogi, ac mae hyn hefyd yn cynnwys cefnogi'r rhieni biolegol a darparu cefnogaeth ar ôl mabwysiadu.





Tîm Adnoddau Teuluoedd

Mae'r Tîm Adnoddau Teuluoedd, sy'n gweithio o Ganolfan y Teulu yn Stryd Wesley, Cwmbwrân, yn darparu gwasanaethau uniongyrchol ar gyfer plant a phobl ifanc mewn angen a Phlant sy'n Derbyn Gofal.

Daw gwaith y tîm o dan bum prif faes:

- Cyswllt dan oruchwyliaeth rhwng Plant sy'n Derbyn Gofal a'u teuluoedd
- Asesiadau cymuned-seiliedig sy'n cynnwys asesiadau rhianta ac asesiadau i'r Llys
- Gwaith uniongyrchol fesul unigolion ac mewn grwpiau, ar gyfer amrywiaeth o anghenion a nodwyd
- Gwasanaeth Ffocws y Teulu, sydd wedi ei leoli yn Nhŷ Fairfield, Pont-y-pŵl, sy'n gweithio gyda theuluoedd i atal anghenion rhag dwysau ble mae yna berygl o gofrestru'r achos ar y gofrestr amddiffyn plant neu i'r plentyn dan sylw fynd i ofal yr awdurdod lleol. Mae'r grŵp bach o staff wedi ei hyfforddi mewn cyfsweld trwy ddefnyddio technegau ysgogol, sy'n fodel a hyrwyddir trwy Wasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, sef menter gan Lywodraeth Cymru. Fe fydd Ffocws y Teulu'n gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Fynwy a Chyngor Dinas Casnewydd i drosglwyddo'r gwaith arloesol hwn.
- Cefnogir Gofalwyr Ifanc Torfaen gan weithiwr cymdeithasol cymwys sy'n asesu'r plant a phobl ifanc hynny sydd â dyletswyddau gofal o fewn eu teuluoedd, ac yn eu cefnogi. Caiff pobl plentyn a pherson ifanc asesiad gan ddefnyddio'r Fframwaith ar gyfer Asesu i sicrhau bod materion diogelu ehangach yn cael eu hystyried, a bod modd cael mynediad at wasanaethau cymorth priodol ar gyfer y teulu cyfan.

Tîm Plant Anabl

Mae'r tîm yn gweithio o Ganolfan Plant Serennu yng Nghasnewydd, ond mae yna safleoedd lleol yn Nhorfaen hefyd. Maen nhw'n darparu gwasanaethau asesu a chymorth arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd. Y tîm yma sy'n gweithredu'r broses sgrinio ac asesu ar gyfer pob atgyfeiriad sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc anabl yn Nhorfaen. Mae'r tîm yn cynnwys Therapi Galwedigaethol integredig a swyddi Gweithiwr Allweddol/Cydlynu Gofal allweddol. Mae'n gweithio'n agos iawn gyda chydweithwyr ym maes iechyd ac addysg i sicrhau asesiadau angen holistaidd. Mae'r tîm yn darparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth gan gynnwys gwasanaethau egwyl fer, mynediad at Daliadau Uniongyrchol a help i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned, cynlluniau chwarae haf a gwasanaethau arbenigol ar gyfer Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig.


Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal

Nod Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal yw darparu gwasanaeth effeithiol, o ansawdd uchel, ar gyfer plant sy'n Derbyn Gofal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

Mae'r tîm yn cynnwys Cydlynnydd Plant sy'n Derbyn Gofal, un Nyrs Glinigol Arbenigol, tri Swyddog Adolygu Annibynnol allanol a dau Weinyddydd.

Mae Swyddog Adolygu Annibynnol yn gyfrifol am adolygu cynllun gofal a lleoliad plentyn, er mwyn sicrhau bod yr asesiadau perthnasol mewn lle. Canlyniad yr asesiadau hyn sy'n pennu cynllun gofal hir dymor plentyn ac yn sicrhau bod ei lleoliad gofal maeth yn bodloni ei anghenion o ran lleoliad diogel a sefydlog. Mae Swyddog Adolygu Annibynnol hefyd yn archwilydd ar gyfer y broses adolygu ac yn sicrhau bod Gweithiwr Cymdeithasol y plentyn yn cwrdd â'r gofynion statudol.

Mae Nyrs Glinigol Arbenigol yn cynnal Asesiad Iechyd Cychwynnol ar gyfer pob plentyn ac fe fydd yn llunio



Cynllun Gweithredu sy'n nodi unrhyw anghenion iechyd eraill. Mae'r Aseidiadau Iechyd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn ofyniad statudol ac yn cael eu cynnal bob 6 mis, neu'n flynyddol, gan ddibynnu ar oed y plentyn/person ifanc.

Mae Gweinyddwyr y Tîm yn sicrhau bod yr holl Adolygiadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ac Aseidiadau Iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal yn cymryd lle o fewn yr amserlenni statudol, a bod adroddiadau'n cael eu dosbarthu'n brydlon.

Uned Diogelu

Tîm amlddisgyblaeth yw'r Uned Diogelu, ac mae'n cwmpasu gwaith amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion. Prif amcan yr uned yw datblygu prosesau ac arferion i wella'r broses o ddiogelu pobl sy'n agored i niwed, rhwng y ddau faes gwasanaeth.

Mae'r uned yn gyfrifol am symud yr agenda diogelu yn ei flaen i blant ac oedolion, a chydlynu a goruchwylio cyfarfodydd amlasiantaeth statudol er mwyn asesu risgiau a chynllunio ymchwiliadau i unrhyw honiadau o gamdriniaeth. Oherwydd hyn, mae'n gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Heddlu Gwent, Iechyd, Tai, Addysg a'r Sector Gwirfoddol. Mae'r uned hefyd yn cefnogi timau gweithredol i ymgymryd â'u cyfrifoldebau statudol nhw eu hunain o fewn gwaith amddiffyn plant ac oedolion.

Y Gwasanaeth Troseddau Ieuentid


Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuentid yn gweithredu fel partneriaeth rhwng Torfaen a Chyngor Sir Fynwy, Gwasanaeth Prawf Gwent, Heddlu Gwent a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Mae'r tîm yn cynnwys gweithwyr o'r asiantaethau amrywiol ac mae ei gylch gwaith yn cynnwys atal cyfradd troseddau ieuentid yn Nhorfaen a Sir Fynwy, a'i gostwng. Ar hyn o bryd, caiff y Gwasanaeth Troseddau Ieuentid ei reoli ar ran y bartneriaeth gan Gyngor Sir Fynwy ac mae wedi'i leoli ym Mamheilad.

Cynhyrchwyd y Cynllun Cyfiawnder Ieuentid ar gyfer Torfaen a Sir Fynwy 2012/14 yn unol â'r ddyletswydd a gyflwynir gan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i bob awdurdod lleol ffurfio cynllun cyfiawnder ieuentid, a'i weithredu, bob blwyddyn.

Nod y cynllun yw archwilio tueddiadau allweddol o fewn y system cyfiawnder ieuentid leol a chenedlaethol, a phennu ymatebion lleol. Yn ychwanegol at hyn mae'r cynllun yn cydnabod y dirwedd sy'n newid drwy'r amser ym myd cyfiawnder troseddol, yn enwedig newidiadau diweddar a chyfredol a newidiadau yn y dyfodol, sy'n gysylltiedig â chyllid, amcanion ac agenda'r llywodraeth glymblaid, blaenoriaethau lleol a newidiadau posib i drosglwyddiad gwasanaethau.

Mae gwaith y tîm yn cynnwys rhoi sylw i ymddygiad troseddol pobl ifanc a gweithio gyda theuluoedd i ostwng y tebygolrwydd iddynt droseddu ymhellach. Darperir amrywiaeth o grwpiau cefnogi rhianta; gwasanaethau ataliol a rhaglenni cyfiawnder adferol.





Gwasanaethau a Gomisiynir

Gwasanaeth Ymyrraeth Aml-ddisgyblaeth Torfaen (MIST)

Darperir y prosiect hwn mewn partneriaeth ag Addysg a'r Bwrdd Iechyd a chaiff ei drosglwyddo gan Gweithredu dros Blant. Ei nod yw cadw plant a phobl ifanc sydd ag anghenion emosiynol ac ymddygiad cymhleth iawn yn eu cymunedau a dod â phlant a phobl ifanc sy'n gorfod cael eu lleoli 'tu allan i'r ardal' yn ôl i ardal Torfaen.

Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ymyraethau dwys iawn gan amrywiaeth eang o ddisgyblaethau, gan gynnwys seicolegwyr clinigol, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr addysg, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a gofalwyr maeth therapiwtig arbenigol.


Tim Lleoli Teuluoedd sy'n gyfrifol am recriwtio gofalwyr maeth therapiwtig, a'u cefnogi. Mae gofalwyr maeth therapiwtig yn cael ffi contract yn ychwanegol at y lwfansau maethu arferol. Mae'r gofalwyr maeth therapiwtig hyn yn ganolog i lwyddiant y prosiect ac mae gofalwyr yn cael cefnogaeth i reoli angen sy'n heriol iawn.

Tafarn Newydd

Mewn partneriaeth â Gweithredu dros Blant a TOG, mae'r gwasanaeth hwn i blant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd yn cynnig cymorth gyda rhianta. Mae hyn yn cynnwys cymorth gyda diagnosis gynnar, cymorth cyn ysgol, cymorth egwyl fer (gan gynnwys gwasanaethau arbenigol ar gyfer Anhwyldeira yn y Sbectrwm Awtistig a seibiant ar benwythnosau), ynghyd â chefnogaeth gydag integreiddio i weithgareddau ehangach yn y gymuned.

Eiriolaeth

Caiff y gofyniad deddfwriaethol i ddarparu eiriolaeth annibynnol ei ddiwallu trwy wasanaeth a drosglwyddir gan NYAS Cymru mewn partneriaeth â Chynghorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chaerffili. Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gymorth eiriolaeth annibynnol ac mae'r gwasanaethau a ddarperir yn amrywio o gynrychioli pobl ifanc mewn cyfarfodydd i gefnogi pobl ifanc i gael gwasanaethau priodol a chefnogi pobl ifanc i gyfleu eu sylwadau'n ffurfiol i asiantaethau. Yn ychwanegol at hyn, mae NYAS yn cefnogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn datblygiadau i wasanaethau gan gynnwys cynhyrchu gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd, tendro ar gyfer gwasanaethau a'r broses penodi ar gyfer aelodau allweddol o staff.




Sut mae Gwasanaethau Plant a'r Teulu yn dod ynghlwm â Phlant, Pobl Ifanc a'u Teuluoedd?

Mae Deddf Plant 1989, a deddfwriaeth gysylltiedig, yn rhoi nifer o ddyletswyddau a chyfrifoldebau dros blant a phobl ifanc i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ac yn bwydo gwaith Gwasanaethau Plant a'r Teulu. Mae'r Ddeddf yn gofyn i'r Cyngor ddarparu amrywiaeth addas o wasanaethau, a hynny ar lefel sy'n briodol i ddiwallu anghenion sydd wedi codi wrth asesu plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Caiff Gwasanaethau Plant a'r Teulu atgyfeiriadau, ceisiadau am gymorth neu bryderon ynghylch plant o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys ymwelwyr iechyd, meddygon teulu, ysgolion, Aelodau Etholedig, yr Heddlu, aelodau o'r gymuned a'r teuluoedd eu hunain. Gall anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd fod yn gymhleth ac mae angen i'r gwahanol dimau weithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill i rannu arbenigedd a darparu gwasanaethau.

Mae yna sawl rheswm pam mae pobl yn cysylltu â Gwasanaethau Plant a'r Teulu. Dyma rai enghreifftiau;

- I ofyn am help i blentyn neu rywun ifanc sydd ag anabledd neu anghenion ychwanegol eraill
- Am fod plentyn/rhywun ifanc wedi cael niwed gan rywun o fewn y teulu
- Oherwydd nad yw plentyn/rhywun ifanc yn cael gofal digonol
- Mae rhieni neu ofalwyr y plentyn/person ifanc angen help gyda'u problemau nhw.



Beth sy'n Digwydd pan fydd Gwasanaethau Plant a'r Teulu'n Derbynn Atgyfeiriad?

Caiff pob atgyfeiriad ei sgrinio i bennu anghenion unigol y plentyn, y person ifanc a'r rhieni neu ofalwyr ac i weld a ddylai'r Cyngor ddarparu cymorth a gwasanaethau. Ble'n briodol, cwblheir asesiad gyda'r teulu ynghyd â gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill sydd efallai â gwybodaeth am y teulu, er enghraifft meddygon, athrawon, y sector gwirfoddol a'r Heddlu. Cyfeirir ar yr asesiad hwn fel asesiad cychwynnol plentyn, a disgwylir ei gwblhau o fewn saith niwrnod gwaith.

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i gefnogi plant a phobl ifanc sydd 'mewn angen' ac i gefnogi teuluoedd i ofalu am eu plant. Gallai hyn gynnwys darparu gwasanaethau, cyngor ac arweiniad neu gymorth ariannol.

Pan fydd plentyn neu rywun ifanc wedi cael eu niweidio neu esgeuluso, neu mae yna bryderon y gallent fod mewn perygl o gael eu niweidio neu esgeuluso, yna fe fydd yr asesiad yn dechrau ar unwaith.

Wedi cwblhau'r asesiad, mae yna amrywiaeth o ganlyniadau posib sy'n gallu cynnwys:

Dangos y ffordd at Wasanaethau Eraill


Efallai y bydd yn briodol atgyfeirio'r plentyn neu'r person ifanc, a'r teulu, at wasanaeth arall, er enghraifft yr ymwelydd iechyd, yr Asiantaeth Budd-daliadau neu gymdeithas wirfoddol sy'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol ar gyfer plant a'u teuluoedd. Mewn achosion o'r fath, efallai na fydd gan Gwasanaethau Plant a'r Teulu unrhyw gysylltiad pellach.

Cymorth i Blant Mewn Angen

Os penderfynir y bydd y plentyn neu'r person ifanc, a'u teulu, yn derbyn gwasanaethau gan Gwasanaethau Plant a'r Teulu, datblygir Cynllun Plant Mewn Angen ysgrifenedig yn esbonio sut fydd y gefnogaeth yn cael ei rhoi, gan gynnwys yr hyn y bydd y teulu angen ei wneud ei hun ac am ba hyd y gellir darparu gwasanaethau. Yna, caiff y cynllun hwn ei adolygu'n rheolaidd.

Cymorth Diogelu/Amddiffyn Plant

Os niweidiwyd y plentyn neu'r person ifanc, neu mae yna reswm dros gredu y gallai ef/hi gael niwed, gellir galw Cynhadledd Amddiffyn Plant. Mae Cynhadledd Amddiffyn Plant yn gyfarfod amlasiantaeth y mae gweithwyr proffesiynol a rhieni yn dod iddo, a'r plentyn neu'r person ifanc os yn briodol. Mae gweithwyr proffesiynol yn rhannu unrhyw wybodaeth a phryderon am y teulu, o'r gorffennol a'r presennol, a allai helpu'r gynhadledd. Yr unig benderfyniad y gall y Gynhadledd Amddiffyn Plant ei wneud yw a ddylid rhoi enw'r plentyn neu'r person ifanc ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Os gosodir enw'r plentyn neu'r person ifanc ar y gofrestr, yna fe fydd y Gynhadledd Amddiffyn Plant yn datblygu Cynllun Amddiffyn Plant amlasiantaeth amlinellol gyda'r teulu, ac yna fe fydd yn cael ei ddatblygu ymhellach trwy Grŵp Craidd sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol allweddol a'r teulu ei hun. Caiff y Cynllun Amddiffyn Plant ei adolygu'n rheolaidd



mewn Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant dilynol, hyd nes y cymerir y penderfyniad amlasiantaeth i dynnu enw'r plentyn oddi ar y gofrestr. Weithiau, efallai fod hyn am fod y plentyn wedi gorfod dod o dan ofal yr awdurdod lleol.

Gwasanaethau ar gyfer y Rheiny sy'n Derby Gofal

Mae rhai plant a phobl ifanc angen Derby Gofal gan y Cyngor. Efallai bod angen i hyn ddigwydd am nad yw'n ddiogel iddyn nhw barhau i fyw gartref neu am fod rhiant yn sâl ac nid oes aelod arall o'r teulu a allai helpu. Cytunir ar Gynllun gyda'r rhiant, y plentyn neu'r person ifanc a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill, ac fe fydd y Cynllun hwn yn sicrhau bod holl anghenion y plentyn/person ifanc yn cael sylw. Fe fydd y cynllun hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan Swyddog Adolygu Annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn Derby Gofal o ganlyniad i bryderon amddiffyn plant yn ymwneud â diogelwch rhag gamdriniaeth emosiynol, corfforol neu rywiol neu esgeulustod.

Beth sy'n Digwydd os yw Plentyn neu Person Ifanc yn 'Derbyn Gofal' gan y Cyngor?

Dan ddeddfwriaeth, mae gofyn i'r Cyngor hybu magwraeth plant a phobl ifanc gan eu teuluoedd. Ond, mae yna achosion ble nad yw'n bosib i blant barhau i fyw gyda'u teulu.


Mae'r Cyngor angen caniatâd rhiant, neu rywun sydd â chyfrifoldeb rhiant, cyn y bydd yn gallu 'gofalu' am' blentyn/rhywun ifanc. Os yw rhiant yn gwrthod caniatâd, ac mae'r Cyngor yn teimlo bod yna berygl sylweddol i'r plentyn os yw'n aros yn y cartref, fe fydd yr awdurdod lleol yn mynd at y Llys i ofyn i Ynad neu Farnwr wneud penderfyniad. O ganlyniad, mae rhai plant yn Derby Gofal dan Adran 20 y Ddeddf Plant gyda chaniatâd eu rhieni ac mae eraill yn destun Gorchymyn Gofal, ble mae'r Llysoedd wedi penderfynu bod anghenion y plentyn yn cael blaenoriaeth dros ddymuniadau'r rhiant.

Os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn cael llety dan drefniadau gwirfoddol, mae rhieni biolegol yn cadw eu holl gyfrifoldebau rhiant. Ond, ble mae yna orchymyn cyfreithiol mewn lle, mae rhieni biolegol yn rhannu eu cyfrifoldebau fel rhieni gyda'r Cyngor.

Elfen allweddol o Ddeddf Plant 1989 yw bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol weithio mewn partneriaeth gyda rhieni. Cymerir, onid oes amgylchiadau neilltuol, y bydd yr Awdurdod yn hybu cyswllt rhwng plant a phobl ifanc sy'n Derby Gofal a'u rhieni.

Rhaid bod gan bob plentyn sy'n cael llety, naill ai gyda chaniatâd rhiant, neu trwy Orchymyn Llys, Gynllun Gofal. Yn y Cynllun Gofal, amlinellir y rheswm pam mae'r plentyn/person ifanc yn Derby Gofal a nodir sut fydd y Cyngor ac asiantaethau partner yn cwrdd â'u hanghenion unigol. Adolygir y Cynllun Gofal yn rheolaidd gan y Swyddog Adolygu Annibynnol, sy'n sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael eu diwallu a bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol. Caiff rhai o'r plant a phobl ifanc lety am ychydig ddiwrnodau neu wythnosau, efallai tra bod eu rhieni'n cael peth help, ond mae eraill angen mwy o amser tra bod trefniadau mwy parhaol yn cael eu gwneud ar gyfer eu gofal.





Eich Rôl fel Aelod Etholedig a Rhiant Corfforaethol

Egwyddorion Rhianta Corfforaethol

Mae rhieni'n dal nifer o lynnau bywyd eu plant gyda'i gilydd: maen nhw'n gofalu am eu diogelwch, eu hiechyd, eu haddysg, diddordebau hamdden, cyfeillgarwch a'u dyfodol. Ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, fel gyda phlant sy'n aros gartref gyda'u teuluoedd, mae yna gysylltiad agos rhwng gofal ac addysg. Fe fydd plentyn neu berson ifanc sydd wedi setlo ac sy'n cael cefnogaeth â gwell siawns o fanteisio ar gyfleoedd addysg a chyflawni ei lawn botensial.

Mae Rhianta Corfforaethol yn pwysleisio cyfrifoldeb cyfunol Cyngor, mewn cydweithrediad â phob corff statudol ac anstatudol, dros gyfrannu at godi safonau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

Mae Rhianta Corfforaethol yn gyfrifoldeb sydd gan bob Aelod Etholedig tuag at yr holl Blant sy'n Derbyn Gofal yn Nhorfaen.

Gellid dadlau mae eich rôl chi fel Aelod Etholedig a Rhiant Corfforaethol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yw'r un bwysicaf sydd gennych. Rydych chi'n gyfrifol am sicrhau gofal ac amddiffyniad effeithiol yr holl Blant sy'n Derbyn Gofal gan y Cyngor ac am sicrhau bod eu lles cyffredinol, eu datblygiad a'u cyfleoedd mewn bywyd yn cael eu hybu, fel y gallant ddisgwyl gwneud cystal â'u cyfoedion, o leiaf.

Ni all y Cyngor efelychu'r cariad y gall rieni ei roi i'w plant; ond, rhaid iddo weithio i ddarparu lleoliadau sefydlog a gofalgar sy'n cynnig sylfaen gadarn er mwyn iddyn nhw ddatblygu'n oedolion. Mae hyn yn cynnwys hybu eu hiechyd, annog eu datblygiad cymdeithasol, codi eu cyraeddiadau addysgol a'u diogelu rhan gamdriniaeth neu esgeulustod.

Mae'r un cyfrifoldebau hefyd yn berthnasol i bobl ifanc sy'n gadael gofal, boed ar gyfer addysg, hyfforddiant neu yn eu camau cyntaf tuag at fyw'n annibynnol neu gadw swydd.


Felly, wrth feddwl am blant a phobl ifanc yng ngofal y Cyngor, mae angen i chi holi'r canlynol i chi'ch hun:

- **Beth os mai 'mhlentyn i oedd hwn/hon?**
- **A fyddai'n ddigon da iddo ef/iddi hi?**
- **A fyddai hyn yn ddigon da i fi?**

Y Cwestiynau y Mae Angen i chi eu Holi

Fel Aelod Etholedig, mae'n bwysig eich bod yn holi'r mathau canlynol o gwestiynau, ac yn derbyn atebion boddhaol iddynt:

- A yw Plant sy'n Derbyn Gofal wedi eu diogelu?
- A oes ganddyn nhw gartrefi da, mewn amgylchedd diogel, gofalgar?
- Ydyn nhw'n ffynnu ac yn datblygu'n gymdeithasol ac yn emosiynol, fel y dylen nhw fod yn ei wneud?



Sicrhewch eich bod yn cael eich diweddarau'n rheolaidd ar faterion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc ac yn cael gwybod sut mae'r Cyngor yn perfformio mewn perthynas â dangosyddion perfformiad.

Dod i Benderfyniadau

Wrth ddod i unrhyw benderfyniad fel Aelod Etholedig, boed mewn perthynas â llwybrau bysiau, oriau agor llyfrgell, adeiladu heol newydd neu ddatblygu ystad newydd o dai, meddyliwch am effaith hyn ar blant a phobl ifanc.

Gwranddo ar Blant a Phobl Ifanc

Mae'n bwysig eich bod yn cwrdd â phlant a phobl ifanc ac yn gwranddo ar eu barn. Mae hyn yn arbennig o bwysig gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal.

Mae cyswllt a chyfathrebu'n bwysig i Aelodau Etholedig a'r plant a phobl ifanc eu hunain. I Aelodau Etholedig, mae'n gallu eu helpu i ddeall pam mae'n rhaid iddyn nhw roi ystyriaeth ddifrifol i'w cyfrifoldebau. I'r plant a phobl ifanc mae'n gyfle i fynegi eu barn a'u pryderon yn uniongyrchol i'r rheiny sydd â'r prif gyfrifoldeb dros lunio polisiau a'r rheiny sydd mewn awdurdod.

Gall cyfathrebu rhwng plant, pobl ifanc, eu gofalmwyr a'r Cyngor a'i Aelodau Etholedig fod yn gymhleth, oherwydd mae yna faterion cyfrinachedd a pharch a rhaid i anghenion a buddiannau'r plentyn ddod yn gyntaf. Gall fod yn arbennig o heriol dod o hyd i ffyrdd priodol o sicrhau bod lleisiau plant ifanc iawn yn cael eu clywed, a datblygu sgwrs effeithiol gyda phlant mewn gofal maeth. Mae'n bwysig peidio ag ymyrryd yn eu materion personol a chreu awyrgylch ble mae pobl ifanc yn teimlo'n rhydd i roi eu barn a'u teimladau gwirioneddol.

Mae'r Cyngor wedi dechrau datblygu ffyrdd gwahanol o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a cheisio'u barn ar y gwasanaethau y mae'n eu darparu. Mae gan Dorfaen **Fforwm Ieuenctid** a gynlluniwyd i hwyluso mewnbyn plant a phobl ifanc i brosesau cynllunio'r Cyngor. Ymgynghorir yn benodol gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal ynghylch cynllun, strwythur, materion a blaenoriaethau'r fforwm ac maen nhw hefyd yn cael eu hannog i gynrychioli buddiannau pob Plentyn sy'n Derbyn Gofal. Mae angen bwydo'r materion y maen nhw'n eu codi i Bwyllgorau Cabinet y Cyngor, Prif Swyddogion Meysydd Gwasanaeth ac Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol.

Mae Pobl Ifanc yn Ddinasyddion Hefyd


Mae pobl ifanc yn ddinasyddion hefyd a llawer ohonynt yn etholwyr. Mae Gofalmwyr Maeth a theluoedd plant mewn angen hefyd yn pleidleisio ac yn etholwyr. Mae angen i bobl ifanc wybod pwy yw eu Haelodau Etholedig a sut i gysylltu â nhw. Fel yna, gallwch glywed eu barn ar wasanaethau ac ar faterion sy'n effeithio arnynt. Efallai y byddan nhw'n gofyn i chi am gyngor neu gymorth ac fe allwch weithredu drostynt fel y byddech ar gyfer eich etholwyr eraill. Mae angen i Aelodau Etholedig gael y cyfle i glywed yn uniongyrchol am faterion pobl ifanc.

Fel Aelod Etholedig, mae gennych rôl bwysig wrth helpu pobl ifanc i gymryd rôl ddinesig weithgar wrth iddyn nhw dyfu'n oedolion. Os ydyn nhw'n mynd i ddod yn ddinasyddion actif, mae angen iddyn nhw weld sut mae'r Cyngor yn berthnasol iddyn nhw nawr.

Byddwch yn Hyrwyddwr Plant

Mae **'Meddwl am y Plentyn'** yn arwyddair pwysig, ond gallai integreiddio hyn gyda blaenoriaethau eraill fod yn her. Wrth i chi ddod i wybod mwy am y plant yn eich gofal, rydych chi'n teimlo bod eu honiadau'n flaenoriaeth, ond ni fydd pob un yn rhannu'r farn honno.





Mae yna lawer o ragfarn ynghylch plant a phobl ifanc 'mewn gofal'. Cred llawer o bobl fod pob plentyn yn derbyn gofal am ei fod wedi troseddu neu am fod ei ymddygiad yn annerbyniol. Ond, mae'r rhan fwyaf o blant yn derbyn gofal am fod y teulu wedi chwalu neu am fod Llys yn penderfynu bod angen eu cadw'n ddiogel rhag gamdriniaeth neu esgeulustod.

Mae rhagfarn yn brifo'r plant sy'n gyfrifoldeb arnoch, a hynny ar adeg pan eu bod efallai eisoes yn ymdopi gyda cholli eu teulu a newidiadau eraill. Yn eich rôl fel arweinydd cymunedol, mae angen i chi gyfleu i'r cyhoedd y flaenoriaeth uchel y mae Cyngor Torfaen yn ei rhoi i les y plant yn ei ofal.

Rhaid bod gennych ddisgwyliadau uchel, a rhaid sicrhau bod pobl ifanc a phlant yn cyflawni'r gorau a bod y cyraeddiadau hyn yn cael eu cydnabod. Rhaid i chi werthfawrogi amrywioldeb a sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn parchu traddodiadau a diwylliannau gwahanol.

Gofalu am Blant a Phobl Ifanc yn Nhorfaen

Mae lletya plant a phobl ifanc yn rhan o gontinwmm o wasanaethau a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc mewn angen; y nod, ble'n bosib, yw eu cynnal o fewn eu teuluoedd biolegol. Ble nad yw hyn yn bosib, ac mae asesiad yn dangos bod plant a phobl ifanc angen llety, mae'r pwyslais ar eu gosod mewn gofal maeth a chynnal cysylltiadau gyda'u cymunedau.

Mae'n gyfrifoldeb ar y Cyngor i ddiogelu a hybu lles y plentyn, ac i annog a galluogi rhieni i gymryd cyfrifoldeb llawn fel rhieni, tra bod hyn er budd y plentyn neu'r person ifanc. Rydyn ni'n ceisio cadw brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd a sicrhau bod lleoliadau addas ar gael mor agos at eu cartref â phosib. Mae Gwasanaethau Plant a'r Teulu'n ceisio sicrhau bob tro fod plant a phobl ifanc yn cadw cysylltiad gyda'u rhwydwaith teuluol eu hunain (ble mae hyn yn bosib ac yn briodol) yn eu cymunedau eu hunain.


Nid oes unrhyw gartrefi plant preswyl yn Nhorfaen. Mae Gwasanaethau Plant a'r Teulu yn gallu darparu lleoliadau gofal maeth yn Nhorfaen ar gyfer y rhan fwyaf o blant sydd angen Derbyn Gofal. Ond, mae yna gyfran fechan o blant a phobl ifanc sydd angen lleoliadau arbenigol oherwydd eu hanawsterau penodol. Ble mae hyn yn angenrheidiol, ceir hyd i leoliad priodol, naill ai gydag asiantaeth gofal maeth arbenigol neu gyda sefydliad preswyl.

Caiff pob un sy'n ymgeisio i fod yn ofalwr maeth yn Nhorfaen asesiad i benderfynu os ydynt yn addas i ofalu am blant ar ran yr Awdurdod. Yn ychwanegol at hyn, os yw'r asesiad yn llwyddiannus ac yn cael ei gymeradwyo trwy'r Panel Maethu, maen nhw'n cael hyfforddiant a chefnogaeth barhaus. I sicrhau bod ansawdd a chysondeb gofal plant a phobl ifanc sy'n Derbyn Gofal yr un peth ymhob man, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Maeth. Mae gofyn i'r Cyngor gwrdd â'r safonau cenedlaethol hyn ac mae'n cael ei arolygu'n flynyddol gan AGGCC.

Er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n Derbyn Gofal, mae yna amrywiaeth o leoliadau ar gael o fewn Torfaen:

Lleoliadau Maeth – mae plant a phobl ifanc (gan gynnwys y rheiny sydd ag ymddygiad heriol iawn) yn byw gyda gofalwyr maeth yng nghartref y gofalwr ei hun.

Egwyl Fer – mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cefnogaeth a gofal preswyl yn y gymuned i'r plant a phobl ifanc hynny sydd ag anabledau corfforol a dysgu ac anghenion ychwanegol.



Llety â Chymorth – caiff y lleoliadau hyn eu cymeradwyo ac maen nhw'n cynnig cefnogaeth i bobl ifanc sy'n symud tuag at fyw'n annibynnol.

Perthnasau/Gofalwyr Maeth Cymeradwy Penodol/Teulu neu Ffrindiau – y rhain yw'r teulu neu'r ffrindiau sydd wedi bod trwy'r broses asesu ar gyfer maethu ac wedi cael eu cymeradwyo'n benodol ar gyfer plant unigol.

Lleoli gyda Rhieni – caiff nifer o blant a phobl ifanc sy'n destun Gorchymyn Gofal cyfreithiol eu gosod gartref gyda'u rhieni, ble mae asesiad wedi dangos bod hyn yn addas ac yn ddiogel, yn amodol ar Reoliadau Lleoli gyda Rhieni. Mae cefnogaeth Gweithiwr Cymdeithasol a Gweithdrefnau Cynllunio ac Adolygu Plant sy'n Derbyngofal yn parhau, er fod y plentyn neu'r person ifanc yn byw gartref. Caiff cyfrifoldeb rhiant ei rannu o hyd.

Lleoliadau 'Tu Allan i'r Ardal' – os nad yw'n bosib i blentyn neu person ifanc Dderbyngofal yn Nhorfaen, yn aml am fod ei anghenion yn gymhleth, mae yna drefniadau mewn lle i sicrhau bod modd cael lleoliadau addas tu allan i Dorfaen. Mae'r rhain yn rhan o gontract ac, yn gyffredinol, byddent yn rhan o gytundeb Fframwaith Cymru Gyfan.

Lleoliad Llety Diogel ar Sail Lles – lleoliadau byr dymor, arbenigol iawn yw'r rhain ac maen nhw'n cael eu defnyddio ar gyfer pobl ifanc sy'n peri risg uchel yn y gymuned neu'n cael eu hasesu fel rhai sy'n berygl i'w hunain neu i eraill. Gellir pennu lleoliadau o'r fath trwy'r Llysoedd yn unig. Gall lleoliad mewn Uned Ddiogel trwy'r System Gyfiawnder Troseddol fod yn rhan o gosb ar gyfer troseddau a gyflawnwyd ac fe fyddan nhw'n ddarostyngedig i gyfarwyddeb Llys wahanol.

Dogfennaeth Plant sy'n Derbyngofal


Mae Torfaen yn defnyddio dogfennaeth Plant sy'n Derbyngofal yr Adran Iechyd yn unol â gweddill y Deyrnas Unedig. Nod y dogfennau hyn yw hybu gwell profiadau rhianta a gwell canlyniadau i blant sy'n Derbyngofal gan y Cyngor. Mae'r deunyddiau'n benodol i oedran ac yn gosod nifer o nodau y gellid disgwyl i riant rhesymol eu gosod ar gyfer unrhyw blentyn. Maen nhw hefyd yn gofyn i gynlluniau ar gyfer Plant sy'n Derbyngofal gael eu cofnodi'n drylwyr a'u gweithredu.

Mae'n ddyletswydd ar Weithwyr Cymdeithasol i gwblhau ffurflenni amrywiol pan fydd plant yn Derbyngofal gan yr Awdurdod. Mae'r dogfennau ysgrifenedig hyn yn cynnwys Cynlluniau Gofal, ffurflenni Adolygu Lleoliad a gwybodaeth hanfodol arall. Mae'r ddogfennaeth hon yn sicrhau bod y rheiny sy'n gyfrifol am ofal plant yn ystyried pob agwedd ar eu bywydau a bod unrhyw gamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael eu dilyn a'u gweithredu. Caiff pob asiantaeth ei hannog i gydweithio hefyd, i sicrhau bod plant yn cyrraedd eu potensial.

System Integredig ar gyfer Plant

Yn Nhorfaen, rydyn ni'n defnyddio system wybodaeth o'r enw DRAIG. Rhan ganolog o'r system hon yw'r System Integredig ar gyfer Plant; y system gofnodi electronig a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Adran Iechyd, i wella canlyniadau ymyrraeth Gweithiwr Cymdeithasol a sut mae hyn yn cael ei reoli. Datblygwyd fframwaith gyda ffurflenni cyffredin i'w defnyddio ledled Cymru ac mae'n ceisio sicrhau bod pob Cyngor yn defnyddio'r un ffordd o wella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Ar lefel genedlaethol, mae yna lawer o waith ar y gweill i edrych ar sut i wella systemau data fel bod llai o amser yn cael ei dreulio ar fewnbynnu gwybodaeth a mwy o amser ar gael i'w dreulio gyda theuluoedd.





Diogelu Plant sy'n Derbyn Gofal

Yn Nhorfaen, mae bron pob Plentyn sy'n Derbyn Gofal yn cael ei leoli mewn gofal maeth yn hytrach na lleoliad gofal preswyl.

Mae gan blant a phobl ifanc mewn gofal maeth yr hawl i ddisgwyl y byddan nhw'n derbyn y gofal priodol, yr anogaeth, y diogelwch a'r sicrwydd y mae rhieni da yn eu rhoi. Cyfrifoldeb y Cyngor, fel Rhiant Corfforaethol, yw gwneud ei orau glas i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Mewn blynyddoedd diweddar, cafwyd pryderon mawr ynghylch lefel y diogelwch a'r amddiffyniad ac ansawdd y gofal a'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant sy'n byw oddi cartref. Nod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Maeth yw sicrhau bod anghenion penodol a hawliau pob plentyn neu berson ifanc mewn gofal maeth yn cael eu diwallu a'u parchu. Cawsant eu cynllunio i sicrhau gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal oddi cartref.


Rhaid i Gyngorau sicrhau bod pob plentyn neu berson ifanc mewn gofal maeth yn cael ei ddiogelu a'i amddiffyn rhag pob maeth o gamdriniaeth, esgeulustod, ecsbloetio ac amddifadedd.

Datblygwyd Protocol Cymru Gyfan ynghylch plant sy'n mynd ar goll ac mae **'Breaking the Cycle'**, sef canolbwynt amlasiantaeth sy'n gweithio o Mamheiliad, ar gael i asesu risgiau a chefnogi pobl ifanc sy'n mynd ar goll yng Ngwent.

Yn ôl yr ymchwil, mae plant a phobl ifanc yn eu gosod eu hunain mewn perygl pan fyddan nhw'n mynd ar goll, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau anghyfreithlon fel camddefnyddio cyffuriau, trosedd ac ecsbloetio rhywiol. Yn y protocol ceir cyngor clir i ofalwyr maeth, rhieni, swyddogion yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol, ynghylch delio gyda sefyllfaoedd ble mae plant yn mynd ar goll, ac mae'n helpu sicrhau y gwneir pob ymdrech i ddod o hyd iddynt mor gyflym â phosib. Yn yr un modd, fe fyddan nhw'n cael y cyfle i siarad â rhywun yn annibynnol am unrhyw beth sy'n eu trwblu ac efallai'n peri iddyn nhw redeg i ffwrdd.

Fe fydd y tîm yn:

- Sicrhau bod pob rhanddeiliad yn ymwybodol fod plentyn wedi cael ei riportio fel plentyn sydd ar goll
- Casglu'r holl wybodaeth gyfredol gan randdeiliaid a'i choladu
- Siarad ag aelodau'r teulu neu ofalwyr
- Llunio asesiad risg llawn
- Atgyfeirio'r plentyn/person ifanc ar gyfer ôl-drafodaeth annibynnol



Anghenion Addysgol ac Iechyd

Anghenion Addysgol Plant sy'n Derbynn Gofal

Mae rhieni'n chwarae rhan bwysig iawn yn addysg eu plant. Maen nhw'n mynegi hoffterau tuag at ysgolion ac yn apelio yn erbyn penderfyniadau a fydd, yn eu barn nhw, yn niweidio cyfleoedd eu plant yn y dyfodol; maen nhw'n mynychu nosweithiau rhieni a diwrnodau chwaraeon; maen nhw'n disgwyl i bobl ymgynghori â nhw a'u cynnwys os oes gan eu plentyn anghenion addysgol arbennig. Mae partneriaeth gyda rhieni a chysylltiadau cadarn rhwng y cartref a'r ysgol yr un mor hanfodol i Blant sy'n Derbynn Gofal.

Blaenoriaethu Addysg

Mae hawl gan bob plentyn i gael addysg dda, gan gynnwys y rheiny sydd yng ngofal y Cyngor. Mae'r ysgol yn rhan bwysig o fywyd bob dydd. Mae'n lle i bobl ifanc ddatblygu hunanhyder, dysgu am berthnasau a'u meithrin, a chael canmoliaeth ac anogaeth. Yn yr ysgol mae Plant sy'n Derbynn Gofal yn gallu "bod fel pob un arall", ac mae hyn yn gallu darparu dilyniant y mae mawr ei angen.

Cynhwysiant – Newid Agweddau

Mae gwerthfawrogi addysg plant a phobl ifanc mewn gofal cyhoeddus, a'i chefnogi, yn gyfrifoldeb sylfaenol arnoch chi fel Aelod Etholedig a Rhiant Corfforaethol. Trwy ddarparu mynediad at gyfleoedd addysgol da, rydyn ni'n buddsoddi yn nyfodol pob plentyn ac yn gofalu amdano. Mae hyn yn golygu sicrhau bod Plant sy'n Derbynn Gofal yn cael mynediad cyfartal at amrediad llawn darpariaeth addysgol a bod eu hanghenion unigol yn cael eu diwallu mewn ffordd sensitif a phrydlon. Ar gyfer mwyafrif helaeth y Plant sy'n Derbynn Gofal, eu hysgol brif ffwrdd fydd hyn.


Mae angen i Rieni Corfforaethol fod yn hyderus fod polisiâu'r ysgol a'r Cyngor yn cofleidio amgylchiadau Plant sy'n Derbynn Gofal, ac nad yw'n eu trin yn wahanol nac yn gwahaniaethu yn eu herbyn mewn unrhyw ffordd am nad ydynt yn byw gartref gyda'u teuluoedd. Ble mae angen rhiant-eiriolydd i ddefnyddio unrhyw wasanaeth neu gael unrhyw gymorth, rhaid i'r Cyngor, fel Rhiant Corfforaethol, sicrhau bod gan bob plentyn yn ei ofal hyrwyddwr effeithiol. Dylai Ysgolion, y Gwasanaeth Addysg a'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol a Thai fod yn hyderus fod eu strategaethau gwrthfwlio a'u polisiâu cyfleoedd cyfartal/cynhwysiant yn cwmpasu Plant sy'n Derbynn Gofal.

Dylai fod gan ddisgyblion sy'n Derbynn Gofal yr un mynediad at y Cwricwlwm Cenedlaethol a phroffion cysylltiedig, ac at arholiadau cyhoeddus ac arweiniad gyda gyrfaoedd. Dylid eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol a theithiau ysgol, a'u galluogi i wneud hynny. Dylid eu hannog, hefyd, i drefnu gweithgareddau gwaith, profiad gwaith a gofyn am gymorth addysgol ychwanegol pan fydd ei angen.

Sicrhau Lleoliadau Sefydlog

Rydyn ni'n gwybod bod sefydlogrwydd a pharhad yn hyrwyddo llwyddiant addysgol ymhlith plant mewn gofal cyhoeddus. Mae yna berthynas glir rhwng anawsterau yn yr ysgol a chwalu o fewn lleoliad; un yn sbarduno'r llall. Weithiau, yr ysgol yw'r unig ffynhonnell dilyniant a sefydlogrwydd o fewn bywyd sydd fel arall yn gythryblus ac yn ansicr. Ein nod yw cadw'r lleoliad yn yr ysgol ble mae hyn yn bosib.






Disgwyliadau Uchel – Codi Safonau

Yn ôl yr ymchwil, mae yna ddisgwyliadau is gan Blant sy'n Derbyn Gofal, o ran cyrhaeddiad ac ymddygiad, yn ogystal â dyheadau is ar eu cyfer ar ran y rheiny sydd ynghlwm â Rhianta Corfforaethol. Daw hyn o'r rhagdybiaeth nad yw plant sydd wedi byw trwy ddigwyddiadau trawmatig yn eu bywydau yn gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu. Mae gan y rhagdybiaeth hon fwriadau da ond mae'n anghywir.

Ymyrraeth Gynnar – Gweithredu sy'n Flaenoriaeth

Dylai pob un sydd ynghlwm â Rhianta Corfforaethol anelu at osgoi oedi a chymryd camau positif yn fuan. Nid yw'n dderbyniol i blant fod allan o'r ysgol, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol ble cytunir i hyn. Caiff Plant sy'n Derbyn Gofal eu gweld fel grŵp sy'n agored i niwed ac mewn perygl o ddadurthiad ac allgau. Ni ddylent gael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu statws gofal ac ni ddylid tybio unrhyw beth am eu hanghenion na'u hymddygiad. Fodd bynnag, dylai fod yn sbardun ar gyfer gweithredu sy'n flaenoriaeth i bawb sydd ynghlwm â darparu gwasanaethau cymorth.






Anghenion Iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal

Yn ôl y dystiolaeth, mae gan blant a phobl ifanc sy'n Derbyn Gofal fwy o anghenion iechyd na'r plant hynny sy'n byw gyda'u rhieni, ac maen nhw'n llai tebygol o gael sylw digonol ar gyfer yr anghenion hynny.

Mae'n hanfodol bwysig sicrhau bod yna drefniadau ar y cyd ar y lefel leol gyda phob asiantaeth berthnasol, i sicrhau bod anghenion iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael sylw mewn ffordd holistaidd. Dylai'r trefniadau hyn hefyd hyrwyddo ffordd iach o fyw yn ogystal â thriniaeth.

Dylai'r egwyddorion ar gyfer diwallu anghenion gofal iechyd plant a phobl ifanc gynnwys:

- Dylai'r Cyngor gyflawni rôl rhiant actif sy'n pryderu am y plentyn wrth hyrwyddo a monitro iechyd a datblygiad y person ifanc, a, ble'n bosib ac yn briodol, dylai gynnwys rhieni biolegol y plentyn neu'r person ifanc mewn ffordd weithgar.
- Dylai gwasanaethau anelu at hybu iechyd a lles plant a phobl ifanc yn y dyfodol a pheidio â chanolbwyntio ar ddod o hyd i salwch yn unig.
- Dylid trosglwyddo gwasanaethau mewn ffordd sy'n galluogi plant a phobl ifanc i gymryd cyfrifoldeb priodol dros eu hiechyd eu hunain, a'u grymuso i wneud hynny.
- Dylid asesu anghenion iechyd plant a phobl ifanc sy'n Derbyn Gofal o fewn fframwaith holistaidd sy'n canolbwyntio ar y plentyn.
- Ni ddylai gwasanaethau wahaniaethu a dylent hybu mynediad cyfartal.
- Dylai pob asiantaeth gydnabod efallai bod plant mewn gofal cyhoeddus angen lefelau uwch o fewnbwn o ran rhianta ac iechyd, er mwyn cyflawni'r un canlyniadau iechyd â phlant eraill yn y boblogaeth.
- Dylid gofyn yn weithgar am ganiatâd y plentyn neu'r person ifanc ar gyfer unrhyw driniaeth gofal iechyd, a'i gofnodi mewn ffordd sy'n cydnabod pwysigrwydd dewis a hygrychedd.
- Dylai trefniant gwasanaethau ystyried anghenion Plant sy'n Derbyn Gofal fel nad yw symud yn rheolaidd yn gwaethygu unrhyw faterion iechyd.



Hawliau Plant a Phobl Ifanc

Comisiynydd Plant Cymru

Penodwyd y Comisiynydd Plant Cymru Annibynnol, statudol, cyntaf ar 1 Mawrth 2001. Mae gan y Comisiynydd Plant y pŵer i adolygu effeithiau polisiâu a throsglwyddiad gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru ac mae'n gweithredu fel hyrwyddwr dros eu hawliau a'u lles. Mae'r cylch gwaith hwn yn cynnwys sicrhau bod plant a phobl ifanc yn rhydd o niwed a chamdriniaeth, yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi, yn cael y cyfleoedd y maen nhw'n eu haeddu mewn bywyd ac yn gwybod am eu hawliau dan gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig. Er bod cylch gwaith y Comisiynydd ond yn cwmpasu plant dan 18 fel arfer, mae ganddo'r pŵer i weithredu mewn perthynas â phobl ifanc, yn enwedig y rheiny sydd wedi bod yn Derbyn Gofal.


Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal

Mae Deddf Plant (Gadael Gofal) 2000 yn nodi'r trefniadau ar gyfer helpu pobl ifanc mewn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal, i ddod yn annibynnol, ac mae'n cryfhau rôl Rhianta Corfforaethol y Cyngor. Fel Rhiant Corfforaethol, fe fydd angen i chi feddwl a oes yna drefniadau boddhaol pan fydd plentyn yn gadael gofal y Cyngor.

Mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i asesu anghenion pobl ifanc 16 ac 17 oed sydd mewn gofal neu wedi gadael gofal, a'u diwallu. Disgwylir i holl wasanaethau'r Cyngor gydweithio, gyda'r sectorau gwirfoddol ac annibynnol, i gydlynu darpariaeth gwasanaethau ac i hyrwyddo byw'n annibynnol. Gallai'r gwasanaethau a ddarperir gynnwys dod o hyd i lety addas ar gyfer y person ifanc, helpu gyda chyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a'u helpu i ddefnyddio cyfleusterau hamdden.

Y Cyngor sydd hefyd yn gyfrifol am dalu taliadau ariannol i bobl ifanc 16 ac 17 oed sydd efallai ddim yn gymwys i gael budd-daliadau'r wladwriaeth.

Gofyniad statudol yw fod pob person ifanc sy'n gadael gofal yn cael **Cynllun Llwybr** amlasiantaeth o fewn tri mis i'w pen-blwydd yn 16 oed a bod y cynllun hwnnw'n rhoi sylw i'w cynlluniau addysg, hyfforddiant a gyrfaedd ac unrhyw gymorth arall y gallai fod ei angen arnynt hyd nes eu bod yn cyrraedd 21 oed. Nid yw Cynlluniau Llwybr yn ceisio symud pobl ifanc allan o ofal. Yn hytrach, maen nhw'n galluogi pobl ifanc i gynllunio ar gyfer eu dyfodol ac yn eu helpu i gyflawni eu dyheadau.



Fframwaith Cyfreithiol a Pholisi sy'n Llywodraethu Gwasanaethau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

Deddf Plant (1989)

Daeth Deddf Plant 1989 i rym ar 14 Hydref 1991 a daeth â mwyafrif cyfraith gyhoeddus a phreifat a oedd yn ymwneud â phlant yng Nghymru a Lloegr ynghyd.

Roedd y Ddeddf yn dod â deddfwriaeth ynghylch gofal a magwraeth plant, ble'r oedd anghydfod preifat, fel ysgariad, yn effeithio arnynt, a'r rheiny sydd angen help gan awdurdod lleol, at ei gilydd, a rhoddwyd nifer o ddyletswyddau a chyfrifoldebau i Gynghorau.

Y Ddeddf:


- Mae'n rhoi blaenoriaeth i les y plentyn
- Mae'n credu ei bod yn well fod plant yn cael eu magu o fewn eu teuluoedd ble mae hynny'n bosib
- Mae'n nodi y dylai awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau sy'n cefnogi plant a theuluoedd mewn angen
- Mae'n hyrwyddo partneriaeth rhwng plant, rhieni ac awdurdodau lleol.

O fewn y Ddeddf, nodir plant mewn angen fel:

- Plant sydd mewn perygl o niwed sylweddol ac angen eu hamddiffyn
- Plant sy'n anabl
- Plant sydd angen Derbyn Gofal
- Plant sydd wedi troseddu
- Plant/pobl ifanc sy'n gadael gofal yr Awdurdod Lleol
- Plant sy'n annhebygol o gyflawni safon iechyd a/neu ddatblygiad rhesymol, neu gynnal y lefel honno, heb ddarpariaeth gwasanaethau – cefnogaeth ar gyfer y teulu.

Deddf Trosedd ac Anrhefn (1998)

Cyflwynodd Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 ddyletswyddau, cyfrifoldebau a chyfarwyddyd newydd ar gyfer darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc, a'u teuluoedd, sydd mewn trafferth gyda'r gyfraith. Mae'r Ddeddf yn gofyn am ddatblygiad Timau Troseddau Ieuencid partneriaeth lleol, i weithio gyda phobl ifanc i atal ymddygiad troseddol yn ogystal â gwaith ar ôl troseddu. Cyflwynodd y Ddeddf nifer o ofynion newydd, gan gynnwys Gorchmynion Rhianta a gwneud iawn i ddiodefwr.



Deddf Plant 2004

Gosododd y Ddeddf Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc ar sylfaen statudol a rhoddodd ddyletswydd ar yr Awdurdod Lleol ac asiantaethau partner allweddol i gydweithredu. Roedd gofyn i bob Awdurdod Lleol ddynodi prif gyfarwyddwr a phrif aelod ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc. Roedd gofyn i Awdurdodau Lleol sefydlu Byrddau Diogelu Plant Lleol gyda chynrychiolwyr o asiantaethau partner. Roedd y Ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau at ddiben amddiffyn plant a rhoddodd ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i hybu addysg Plant sy'n Derbyn Gofal.

Deddf Plant (Gadael Gofal) (2000)

Mae Deddf Plant (Gadael Gofal) 2000 yn gosod dyletswydd ar Gyngorau i asesu anghenion gofal a chymorth plant sy'n gadael eu gofal, a'u diwallu. Rhaid i Gyngorau gadw mewn cysylltiad â'r rheiny sydd wedi gadael eu gofal, sicrhau bod ganddynt Gynllun Llwybr, cynghorydd personol a llety addas, a helpu gyda chost addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae'r dyletswyddau hyn yn cydnabod na fydd cymorth rhieni fel arfer yn dod i ben yn sydyn wedi i'r plentyn gyrraedd 16 oed.

Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl (2000)


Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Gyngorau gynnig Taliadau Uniongyrchol i bobl ifanc 16 ac 17 oed sy'n anabl. Mae'r Awdurdod Lleol yn talu'r taliad yn hytrach na threfnu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y person ifanc anabl yn ôl yr asesiad. Yna, mae'r person ifanc yn defnyddio'r taliad i sicrhau'r gwasanaethau y mae eu hangen. Rhaid bod pob person ifanc sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol yn gallu eu rheoli, ac yn fodlon eu rheoli (ar eu pennau eu hunain neu gyda chymorth). Wrth benderfynu a yw'n mynd i gynnig Taliad Uniongyrchol, rhaid i awdurdod ystyried pob achos unigol. Rhaid ystyried barn yr unigolyn, yn ogystal â barn y rhieni.

Dan ddarpariaethau'r Ddeddf, gall awdurdodau lleol hefyd roi taliadau uniongyrchol i bobl sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn anabl i brynu gwasanaethau i gwrdd ag anghenion teulu'r plentyn a gododd yn yr asesiad.

Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002

Prif nodau:

- Cynyddu achosion o Fabwysiadu a lleoliadau eraill sy'n wirioneddol gyfreithiol yn sicrhau lleoliadau parhaol
- Cyflwyno gorchymyn cyfreithiol newydd - gwarchodaeth arbennig – i blant sydd ddim yn gallu mynd adref ond nad yw mabwysiadu'n opsiwn addas iddynt. Ni fyddai'r Cyngor yn gofalu am y grŵp yma o blant mwyach
- Nawr, mae gan deuluoedd sydd wedi mabwysiadu o'r newydd, a gwarcheidwaid arbennig newydd, yr hawl i gefnogaeth ar ôl mabwysiadu, ac mae hyn yn gallu cynnwys cymorth ariannol
- Nawr, mae gan y rheiny sy'n ystyried mabwysiadu y cyfle i gael adolygiad annibynnol os yw eu cais i fabwysiadu yn cael ei wrthod gan yr Asiantaeth Mabwysiadu
- Mae amserlenni newydd ar gyfer cynllunio ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn sicrhau bod trefniadau ar gyfer dyfodol parhaol yn cael eu hystyried ar gam cynnar ac y gweithredir yn fuan ar benderfyniadau
- Sefydlu Cofrestr Mabwysiadu ar gyfer Cymru a Lloegr, gyda'r nod o daclo oedi wrth ddod o hyd i leoliadau mabwysiadu addas i blant.



Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru)

Cyflwynwyd y Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) drafft i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2013, i'w ystyried ac i graffu arno. Fe fydd y ddeddfwriaeth newydd hon yn rhoi'r fframwaith cyfreithiol er mwyn gwella lles pobl sydd angen gofal neu gefnogaeth ac i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Fe fydd y Mesur yn newid y ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu trosglwyddo, gan hybu annibyniaeth pobl a rhoi llais cryfach a mwy o reolaeth iddynt.

Fe fydd integreiddio'r gyfraith, a'i symleiddio, yn sicrhau mwy o gysondeb ac eglurder i:

- bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol,
- eu gofalwyr,
- staff yr awdurdod lleol a'u mudiadau partner,
- y llysoedd a'r farnwriaeth.

Fe fydd y Mesur yn hybu cydraddoldeb ac yn gwella ansawdd gwasanaethau a'r wybodaeth y mae pobl yn ei derbyn. Fe fydd hefyd yn annog ffocws ffres ar atal ac ymyrryd yn gynnar.

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen

Y Ganolfan Ddinesig

Pont-y-pŵl

NP4 6YB

Ffôn: (01495) 762200

Ffacs: (01633) 648794

E-bost: socialcarecalltorfaen@torfaen.gov.uk

www.torfaen.gov.uk

**Gellir cael y canllawiau hyn mewn ieithoedd eraill ac mewn fformatau eraill, ar gais.
Cysylltwch â Gofal Cwsmeriaid ar 01495 762200.**

